CANLLAWIAU

# Profion ac asesiadau: coronafeirws

Gwybodaeth am arholiadau ac asesiadau, gan gynnwys Safon Uwch, yn ystod y pandemig coronafeirws.

Rhan o: Addysg bellach ac uwch: coronafeirws, Cymwysterau a Ysgolion: coronafeirws

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Hydref 2020

## Cynnwys

Beth fydd yn digwydd i gyfres arholiadau mis Tachwedd?

A fydd arholiadau'n digwydd yn haf 2021?

A fydd yn rhaid i ddysgwyr sefyll y prawf Rhifedd (Rhesymu) eleni?

A fydd yn ofynnol i ddysgwyr gymryd yr asesiadau personol ar-lein mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen?

## Beth fydd yn digwydd i gyfres arholiadau mis Tachwedd?

I ddysgwyr mewn ysgolion ac mewn colegau addysg bellach, bydd cyfle i sefyll arholiadau TGAU craidd mewn Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Cymraeg Iaith ym mis Tachwedd 2020 yn ôl y bwriad. Bydd cymwysterau eraill ar gael ym mis Ionawr 2021 ac fel rhan o gyfres haf 2021.

Mae hyn er mwyn i'r dysgwyr hynny sydd ar fin cymryd TGAU allu parhau â'u haddysg gyda chyn lleied o darfu â phosibl, o dan yr amgylchiadau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddysgwyr sydd ar fin sefyll eu harholiadau mynediad i brifysgolion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Bydd canllawiau gweithredol pellach i helpu canolfannau (h.y. ysgolion a cholegau) i gynnal y gyfres arholiadau'n ddiogel yn cael eu cyhoeddi ddydd Llun.

## A fydd arholiadau'n digwydd yn haf 2021?

Rydym yn cydnabod bod y ffordd y caiff cymwysterau eu hasesu eleni yn peri pryder i lawer, yn enwedig wrth weld bod yr amharu yn parhau.

Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo'n glir i wneud datganiad ar ein dull o ymdrin â chymwysterau – gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol - cyn yr hanner tymor nesaf, ddiwedd y mis hwn. Bydd hyn yn rhoi amser ar gyfer paratoi a gweithredu

Rydym am wrando ar ddysgwyr wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu, a sicrhau bod unrhyw gamau yr ydym yn eu cymryd yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn ar draws y system. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru wedi sefydlu trefniadau gwell o ran llywodraethu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i oruchwylio'r rhaglen waith ar gyfer haf 2021. Bydd hyn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gadarn ac yn seiliedig ar degwch.

Bydd yr adolygiad annibynnol, a sefydlwyd gennym i edrych ar y materion allweddol a gododd o'r trefniadau ar gyfer haf 2020 ac i ddarparu argymhellion ac ystyriaethau ar gyfer dulliau gweithredu 2021, yn adrodd ar ei ganfyddiadau interim yn ddiweddarach y mis hwn.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn i Cymwysterau Cymru roi cyngor pellach am yr opsiynau sydd ar gael yn awr, gan fod yr amharu yn parhau, gan ganolbwyntio'n glir ar y gallu i gyflawni a chydraddoldeb mewn unrhyw ddull gweithredu – bydd y cyngor hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adolygiad annibynnol.

I ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau, ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg, eu hyfforddiant neu eu cyflogaeth. Dyna pam, ochr yn ochr â'r ystyriaethau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cymwysterau, rydym yn buddsoddi bron i £50 miliwn mewn mesurau i gefnogi dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, y gwaith adolygu Safon Uwch a'r cyllid pellach a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf i ddatblygu adnoddau TGAU ac i ddarparu rhaglen fentora ar gyfer pob dysgwr mewn blynyddoedd arholiad.

## A fydd yn rhaid i ddysgwyr sefyll y prawf Rhifedd (Rhesymu) eleni?

Ni fydd profion statudol ar bapur yng Nghymru yn 2020/21. Bydd asesiadau personol Rhifedd (Rhesymu) ar-lein yn cael eu profi yn 2020/21, ac yn dod yn ofyniad statudol o flwyddyn academaidd 2021/22.

## A fydd yn ofynnol i ddysgwyr gymryd yr asesiadau personol ar-lein mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen?

Bydd. Bydd asesiadau personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen yn statudol yn 2020/21. Mae'r asesiadau ar gael i ysgolion eu hamserlennu pan fydd yn briodol iddynt wneud hynny.

Lle mae dysgwyr wedi cwblhau asesiadau rhifedd gweithdrefnol eleni, bydd ysgolion yn gallu cael adborth ar eu sgiliau, eu sgoriau safonedig ar sail oedran ac adroddiadau cynnydd.

Mae adroddiadau adborth ar gyfer yr asesiadau darllen hefyd ar gael. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr gymryd yr asesiadau darllen y bydd sgoriau ac adroddiadau cynnydd ar gael. O ystyried yr amgylchiadau presennol, ni fydd hyn tan ddiwedd tymor yr haf 2021.

PERTHNASOL

Addysg bellach ac uwch: coronafeirws
- Addysg bellach: coronafeirws

Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi
- Dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws

Ysgolion: coronafeirws
- Staff ysgolion a'u cyflogaeth: coronafeirws

Cyhoeddwyd gyntaf
24 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf
16 Hydref 2020

Rhan o
Addysg bellach ac uwch: coronafeirws
Cymwysterau
Ysgolion: coronafeirws